S4/C

Papur Ymgynghorol Awdurdod S4C
14 Mai 2007
Cynigion ar gyfer darpariaeth sianel deledu Gymraeg i blant yn y dyfodol.

Gwasanaethu Plant yn y Dyfodol Digidol

Manylion

Teitl yr ymgynghoriad: **Gwasanaethau Plant yn y Dyfodol Digidol**

At: Alun Thomas, Ysgrifennydd, S4C

Enw'r person sy'n ymateb:

Cynrychiolir (hunan neu sefydliad/au)/ Teitl Swydd:

Oes modd i chi nodi eich oedran os o dan 16 mlwydd oed:

Cyfeiriad (os heb ei dderbyn trwy e bost):

Cyfrinachedd / Datganiad

Beth ydych yn dymuno i S4C gadw'n gyfrinachol?

Dim	☑	Enw /Manylion Cyswllt / Teitl Swydd / Oedran	☐
Ymateb	☐	Sefydliad	☐

Os hoffech ran o'ch ymateb, eich enw, neu eich sefydliad i fod yn gyfrinachol, a all S4C barhau i gyhoeddi cyfeiriad at gynnwys eich ymateb (gan gynnwys, ar gyfer unrhyw ddarnau cyfrinachol, crynodeb cyffredinol na fyddai'n datgelu gwybodaeth benodol na galluogi rhywun i'ch adnabod)? Serch hyn, bydd yr holl ymatebion yn cael eu rhannu gyda'r Adran dros Ddiwylliant , Cyfryngau a Chwaraeon i roi gwybodaeth i'r Ysgrifennydd Gwladol er mwyn cynorthwyo'r broses o benderfynu ar y Gwasanaeth Newydd

Drwy nodi beth hoffem gadw yn gyfrinachol uchod, rwy'n cadarnhau fod yr ohebiaeth a ddarperir gyda'r ddalen flaen yn ymateb ymgynghorol ffurfiol. Gellir ei argraffu, (yn ddarostyngedig i'r hyn rwyf wedi nodi uchod hoffem gadw yn gyfrinachol) ar wefan S4C a'i rannu gyda'r ADCCh os na noder fel arall ar y ddalen flaen, ac rwy'n awdurdodi S4C a'r ADCCh i wneud defnydd o'r wybodaeth o fewn yr ymateb i gwrdd â gofynion cyfreithiol. Os mae'r ymateb hwn ar e bost, gall S4C anwybyddu unrhyw destun e bost safonol yngl□ â pheidio datgelu cynnwys e bost ac atodiadau.

Enw Rita Jones **Arwyddwyd** (os yn gopi caled)

Atodiad B – Holiadur a Digwyddiadau

Byddem yn ddiolchgar pe baech yn gallu ystyried ein cwestiynau a'u hateb. Byddwn yn falch o gael eich sylwadau yn Gymraeg neu'n Saesneg.

Y dyddiad cau ar gyfer anfon eich ymateb yw **20 Gorffennaf 2007**.

Sut i ymateb i Ymgynghoriad S4C

Mae tair ffordd o ymateb

1. Llanwch ein ffurflen ymateb ar-lein i'r ymgynghoriad
   http://www.s4c.c.uk/plant/c_consultation.shtml

2. **Trwy e-bost**
   Ar gyfer ymatebion mwy o faint i'r ymgynghoriad a'r rhai sydd â deunydd ategol, a fyddech gystal ag anfon e-bost at alun.thomas@s4c.co.uk gan gynnwys eich ymateb ar ffurf dogfen Microsoft Word, ynghyd â thudalen flaen ar gyfer yr ymgynghoriad http://www.s4c.co.uk/plant/c_consultation-cover-sheet.pdf

3. **Yn y post**
   Neu, gallwch ymateb trwy ysgrifennu at Mr Alun Thomas, Ysgrifennydd Awdurdod S4C, S4C, Parc T□ Glas, Llanisien, Caerdydd, CF14 5DU. A fyddech gystal â chynnwys tudalen flaen ar gyfer ymgynghoriad http://www.s4c.co.uk/plant/c_consultaton-cover-sheet.pdf gyda'ch ymateb.

Cwestiynau

Byddwn yn croesawu eich barn ar y cwestiynau canlynol:

1. A ydych yn cytuno â'n barn y bydd gwasanaeth i Blant yn gwella'r gwasanaeth cyhoeddus a gynigir yn y Gymraeg i Blant?

Cytunwn. Mae'r ystod eang o sianeli penodol ar gyfer plant a phobl ifanc sydd ar gael yn y Saesneg yn denu'r Cymry ifanc oddi wrth S4C, ac yn llesteirio'r arfer ymysg plant o wylio rhaglenni cyfrwng Cymraeg. Credwn yn gryf bod angen dirfawr am yr un lefel o ddarpariaeth yn y Gymraeg. Cytunwn y dylid marchnata gwasanaethau ar gyfer y gwahanol oedrannau ar wahân, ac y dylid mabwysiadu dulliau ac arddull addas a phenodol i dargedu'r oedran. Anghytunwn yn gryf a'r datganiad nad oes angen marchnata gwasanaeth ar gyfer yr oedran meithrin. Credwn ei bod yn hollbwysig cynnal ymgyrch farchnata arloesol fydd yn targedu rhieni'r plant ifancaf, ac y dylid defnyddio dulliau blaengar ar gyfer rhieni di-gymraeg sydd, ar hyn o bryd, ddim yn gwylio S4C ar sy'n anwybodus ynghylch y rhaglenni sydd ar gael yn y Gymraeg i'w plant.

2. A oes gennych unrhyw sylwadau / beth yw'ch safbwyntiau am yr oriau darlledu a gynigir a'n cynulleidfaoedd targed?

Cytunwn ar y cyfan. Dylid, fodd bynnag, rhoi ystyriaeth lawn i'r angen a'r potensial i ail-ddarlledu rhaglenni meithrin (trwy gynnig dewisiadau botwm coch) dros y cyfnod 16.00-18.00. Yn gynyddol, gwêl plant ifainc sydd â dau riant yn gweithio yn treulio cyfnodau sylweddol yn ystod y dydd mewn darpariaeth tu allan i'w cartrefi. Byddai ailddarllediad o raglenni meithrin yn ystod y ddwy awr diwedd pnawn yn cynnig cyfle i rieni, sy'n gweithio, wylio a mwynhau rhaglenni Cymraeg addas gyda'u plant, a hefyd yn osgoi sefyllfa lle y troi'r at sianeli Saesneg i ddifyrru'r plant lleiaf dros amser swper a chyn noswylio.

3. Yn eich barn chi, beth fyddai'r nodweddion allweddol pwysicaf ar gyfer gwasanaethau teledu i Blant a ddarparir gan S4C?

Dylid ymgyrraedd at y nod o gynhyrchu rhaglenni Cymraeg safonol ac o'r ansawdd uchaf posib i blant.

Dylai'r gwasanaeth ar gyfer y plant ifancaf gyflwyno patrymau iaith meithrin, ynghyd â datblygu elfennau sy'n berthnasol i fywyd bob dydd y plentyn bach. Gellid hybu defnydd cymdeithasol ac addysgol o'r Gymraeg trwy ddatblygu cymeriadau sy'n apelgar i blant bach e.e cymeriadau Mabon a Mabli. Gallai cymeriadau o'r fath gynorthwyo gyda hybu'r defnydd o Gymraeg yn chwarae bob dydd y plant. Gwelir enghraifft wych o gymeriad tebyg yng Ngwlad y Basg. Yn yr un modd, ar gyfer yr ystod oedran plant hŷn, dylid cynhyrchu gemau cyffrous atodol i gyd-fynd â rhaglenni teledu. Byddai trafodaethau cyson a chynllunio ar y cyd rhwng S4C a MYM yn sicrhau y cynhyrchir rhaglenni sy'n cyd-fynd ac yn atgyfnerthu gweithgareddau a chwricwlwm y cylch Ti a Fi a'r cylch meithrin e.e Cymraeg i'r Teulu, Abersaff a Darganfod ein Byd.

Ar drothwy gweithredu'r cwricwlwm newydd yng Nghymru ar gyfer yr oedran 3-7 oed – sef y Cyfnod Sylfaen, dylid ystyried gosod egwyddorion a meysydd dysgu y cwricwlwm fel sail i raglenni plant meithrin a hŷn yn y dyfodol.

Argymhellwn sefydlu pwyllgor o arbenigwyr mewn materion plant i gefnogi S4C yn y maes newydd cyffrous hwn.

Yn olaf, pwysleisir yr angen i ystyried anghenion plant anabl a'r rhai sydd ag anghenion addysgol ychwanegol wrth gynllunio gwasanaeth teledu i'r holl ystod oedran.

4. A oes gennych unrhyw sylwadau am yr opsiynau a nodwyd ym mharagraff 4 ac yn arbennig, y dewis rhwng opsiwn 1 a 2? A oes gennych unrhyw sylwadau eraill yr hoffech i ni eu hystyried am y mater hwn?

Credwn yn gryf y dylai sianel blant ddarparu gwasanaeth di-dor 7 diwrnod yr wythnos er mwyn denu a chadw gwylwyr ifanc, ac o'r herwydd credwn mai opsiwn 2 yw'r unig ddewis fydd yn cynnig sefyllfa ddelfrydol i blant. Eto cynigiwn y dylid ystyried yr opsiwn botwm coch ar gyfer darllediadau o'r Cynulliad. Yn yr un modd, ni ddylid tarfu ar y gwasanaeth i blant trwy ddarparu rhaglenni ychwanegol o ddigwyddiadau a gwyliau cenedlaethol ar yr un sianel, ond yn hytrach cynigiwn y dylid ystyried dewisiadau botwm coch ar gyfer y darllediadau hyn.

5. A ydych yn credu y byddai darparwr trydydd parti yn fodlon darparu gwasanaeth teledu Cymraeg i Blant o natur debyg i'r un a amlinellwyd uchod, ar sail masnachol?

Oherwydd natur arbenigol y cwestiwn, ni chynigir sylwadau ar yr uchod.

6. A allwch chi feddwl am randdalwyr allweddol nas cynhwyswyd yn Atodiad A?

Credwn y dylid fod wedi cynnwys yr asiantaethau canlynol yn yr ymgynghoriad:
Comisiwn Hawliau Anabledd
Cymdeithas y Dysgwyr
Partneriaethau Plant a Phobl Ifanc sirol
Y Ddraig Ffynci
Cymuned
Ysgolion Sul
Cynghorau Plant (mewn croesdoriad o ysgolion)

7. A oes gennych unrhyw sylwadau eraill yr hoffech i ni eu hystyried o ran yr Ymgynghoriad hwn ynghylch sianel deledu Gymraeg newydd i Blant?

Er yn deall bod rhesymau statudol a chorfforaethol dros arddull ac ieithwedd y ddogfen ymgynghorol, teimlwn na fu hyn yn ffordd effeithiol o hwyluso sylwadau ac adborth gan rieni a phlant yn benodol. Gellid fod wedi ymgynghori â rhieni a phobl ifanc trwy gynnal trafodaethau anffurfiol mewn cylchoedd Ti a Fi a chylchoedd meithrin, clybiau ieuenctid, clybiau Ffermwyr Ifanc a gyda Chymdeithas Rhieni ac Athrawon. Dylid hefyd sicrhau yn y dyfodol bod plant a phobl ifanc gydag anghenion ychwanegol yn cymryd rhan lawn yn y broses o roi barn ar y gwasanaeth.

Digwyddiadau Cyhoeddus

Bydd Awdurdod S4C yn cynnal rhai digwyddiadau cyhoeddus i drafod yr ymgynghoriad. A fyddech gystal â throi at wefan S4C http://www.s4c.co.uk/plant a'r wasg leol am fanylion.

Hygyrchedd

Mae'r ymgynghoriad hwn ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg, ac mae modd troi at gopi mewn print mawr ar-lein http://www.s4c.co.uk/plant neu gellir darparu copi o'r fath. O gael cais, byddwn yn trefnu bod copi *braille* o'r ymgynghoriad yn cael ei ddarparu.

Rhyddid Gwybodaeth

Mae S4C yn rhwym i ddarpariaethau Deddf Rhyddid Gwybodaeth ("RhG") 2000. Os bydd unrhyw ymatebydd o'r farn bod unrhyw wybodaeth y bydd S4C yn ei rhoi iddo/iddi yn unol â'r gwahoddiad hwn, o natur gyfrinachol neu sensitif yn fasnachol, dylid amlygu hyn, gan nodi'r rhesymau dros ei sensitifrwydd yn yr ymateb llawn. Bydd S4C yn ystyried hyn wrth benderfynu a ddylai ryddhau'r wybodaeth wrth ymateb i Geisiadau Rhyddid Gwybodaeth. Fodd bynnag, mae ymatebwyr yn derbyn y bydd S4C yn rhyddhau gwybodaeth o'r fath os bydd yn cael cyngor cyfreithiol bod yn rhaid iddi wneud hynny er mwyn cydymffurfio â Deddf RhG.

Diogelu Data

Mae ymatebwyr yn awdurdodi S4C i brosesu'r holl wybodaeth a ddarparir fel rhan o'u hymateb gan gynnwys, ond heb ei gyfyngu i, cyhoeddi gwybodaeth o'r fath a/neu ei darparu i drydydd partïon a chadarnhau eu bod wedi sicrhau'r holl ganiatâd trydydd parti angenrheidiol i alluogi S4C i wneud hynny.